**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/1157/15

Bethan Jenkins AC
Etholaeth De-orllewin Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Bethan.jenkins@assembly.wales

25 Mawrth 2015

Annwyl Bethan,

Diolch am eich cwestiwn i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ystod y Cwestiynau Busnes ar 24 Chwefror, ynghylch sut mae atchwanegiadau a diodydd chwaraeon yn cael eu rheoleiddio.

Mae eich cwestiwn yn cyfeirio at orfodi a rheoleiddio. Gan fod y digwyddiad dan sylw yn ôl pob tebyg yn cyfeirio at halogi anfwriadol, byddai hyn yn fater o orfodi. Yr awdurdodau gorfodi lleol (Iechyd yr Amgylchedd a'r Safonau Masnach) sy'n gyfrifol am y gorfodi hwn.

Fodd bynnag, o safbwynt y cwestiwn penodol ar reoleiddio, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn bodoli ynghylch bwydydd at ddibenion ymdrech ddwys i fagu cyhyrau, yn enwedig ar gyfer unigolion ym maes chwaraeon. Felly, y Gyfraith Fwyd Gyffredinol sy'n berthnasol.

Nod UE 178/2002 (y Gyfraith Fwyd Gyffredinol) yw diogelu iechyd pobl a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae'n ofynnol i gwmnïau busnes bwyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, ei darddiad, hysbysiad o ddigwyddiadau diogelwch bwyd, ac adalw a chael gwared ar fwyd sy'n anniogel. Dyma'r prif ofynion:

- Ni ddylai bwyd fod yn anniogel, h.y. rhaid iddo beidio â bod yn niweidiol i iechyd neu'n anaddas i'w fwyta gan bobl;
- Ni ddylai labeli, hysbysebion a chyflwyniad y bwyd gamarwain defnyddwyr;
- Rhaid i fusnesau bwyd allu nodi'r busnesau lle cawsant y bwyd, y cynhwysion neu'r anifeiliaid sy'n cynhyrchu'r bwyd, a'r busnesau y maent wedi'u cyflenwi â nwyddau, a chyflwyno'r wybodaeth hon ar alw; a
- Rhaid i fwyd anniogel gael ei dynnu oddi ar y farchnad a'i alw yn ôl oddi wrth y defnyddwyr os yw eisoes wedi'i werthu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Caiff atchwanegiadau bwyd eu rheoleiddio yn y DU dan Gyfarwyddeb 2002/46/EC Ychwanegion Bwyd y Comisiwn Ewropeaidd a Rheoliad 1925/2006 y Comisiwn Ewropeaidd ar ychwanegu fitaminau a mwynau a rhai sylweddau eraill i fwydydd, yn ogystal â phob cyfraith fwyd berthnasol arall. Mae Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) yn gweithredu'r gyfarwyddeb hon yn gyfraith genedlaethol. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r rhestr o fitaminau a mwynau y gellir eu hychwanegu i atchwanegiadau bwyd. Nid ydynt yn pennu sylweddau heblaw am fitaminau a mwynau mewn atchwanegiadau bwyd, ond rhaid i unrhyw gynhwysion eraill a ddefnyddir fod yn ddiogel i'w bwyta gan bobl ac ni ddylent fod yn beryglus i iechyd.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

CC: Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth